Estyn

*Rhagoriaeth i bawb......Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Cyfrifon Adnoddau Adrannol 2004-2005**

## RHAGAIR I'R CYFRIFON

### Swyddogaeth a gweithrediad

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cyflogir y staff yn y Pencadlys yng Nghaerdydd ac mewn swyddfa leol yng ngogledd Cymru.

Mae gan Estyn gyfrifoldebau statudol ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae hyn yn golygu nad yw ei weithgareddau craidd yn newid o flwyddyn i flwyddyn, oni bai bod newid yn y ddeddfwriaeth. Bob blwyddyn, felly, mae Estyn yn parhau i arolygu'r canlynol mewn cylch:

Lleoliadau meithrin na chynhelir;
Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig;
Ysgolion annibynnol;
Unedau cyfeirio disgyblion;
Awdurdodau Addysg Lleol (fel arfer mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio - bellach yn rhan o Swyddfa Archwilio Cymru);
Sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon;
Sefydliadau addysg bellach;
Darparwyr dysgu yn y gwaith;
Addysg oedolion ac addysg barhaus;
Gwasanaethau cymorth ieuenctid; a
Chwmnïau Gyrfa Cymru.

Yn ystod 2004-2005, mae Estyn hefyd wedi parhau i arolygu elfennau addysg, gyrfaoedd a hyfforddiant y Fargen Newydd yng Nghymru, yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd yn rhoi cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru sy'n rhan o'r cylch gorchwyl a roddir yn flynyddol i'r Prif Arolygydd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r cylch gorchwyl yn cynnig ffocws i weithgareddau staff Estyn yn y ffordd y mae'n nodi'r gwaith y mae angen ei wneud mewn unrhyw flwyddyn benodol i gefnogi'r blaenoriaethau gweinidogol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Nodir dulliau arolygu Estyn mewn fframweithiau ac arweiniad cyhoeddedig. Caiff y dogfennau hyn, sy'n helpu sicrhau ansawdd a chysondeb arolygiadau, eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

### Prif nod ac amcanion

Nod Estyn, a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2004-2007, yw hybu safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a chyngor, wrth gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Cynllun i Gymru 2001, fel y cefnogir gan ddogfennau eraill gan gynnwys 'Y Wlad sy'n Dysgu' ac 'Ymestyn Hawliau'.

Amcanion Estyn ar gyfer 2004-2005 yn y cynllun oedd:

- darparu gwasanaeth arolygu addysg a hyfforddiant o safon uchel yng Nghymru; a
- chynnig cyngor annibynnol a chadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau, i lywio Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth lunio ac arfarnu polisi er gwella addysg a hyfforddiant yn barhaus yng Nghymru.

**Ariannu**

Mae Estyn yn annibynnol ar, ond wedi'i ariannu gan, Lywodraeth Cynulliad Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Fformat y cyfrifon**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan Estyn yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro ariannol Estyn yn unig.

**Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn**

Dengys y Datganiad Gweithredu gost weithredol net ar gyfer y flwyddyn o £11,330,000 (2003-04: £9,807,000) sy'n cynrychioli cynnydd mewn gwariant net o 15.5% o gymharu â 2003-04.

Un o dargedau ariannol allweddol Estyn yw cadw gwariant o fewn terfynau'r gyllideb. Oherwydd amgylchiadau a ddisgrifir isod, nodwyd a deliwyd â thanwariant tebygol trwy drosglwyddo £2.1 miliwn o nawdd yn ystod o flwyddyn o gyllideb refeniw Estyn i wasanaethu meysydd y Grŵp Gwariant Addysg a Gydol Oes o fewn Adran Hyfforddiant ac Addysg (AHA) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC).

Roedd y prif achosion o danwario a gyfrannodd at y trosglwyddiad fel a ganlyn;

- Tanwariant ar gostau staffio o £1.1 miliwn yn erbyn y gyllideb wreiddiol. Roedd hyn yn bennaf yn ganlyniad i'r ffaith nad oedd recriwtio llawn i strwythur staffio Estyn ar adeg pan oedd ehangu wedi'i gynllunio, oherwydd:

  (a) y cyfyngiad dros dro ar gyllidebau a oedd yn ofynnol yn ystod cyfnod Adolygiad Gwariant Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) o fis Medi 2003 i fis Hydref 2004;

  (b) yr ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol yn ystod y cyfnod adolygu; a

  (c) chanlyniad terfynol yr adolygiad a gafodd yr effaith o gyfyngu ar wariant ar draws y trefniant tair blynedd. Roedd cyfyngiadau penodol ym mlwyddyn 3 a leihaodd gallu Estyn i benodi arolygwyr parhaol ym mlynyddoedd 1 a 2.

  Ni ellid parhau i fodloni rhwymedigaethau arolygu cynyddol a gofynion gwaith y cylch gorchwyl gan CCC gyda lefelau staffio 2004. Pan ddaeth canlyniad yr Adolygiad Gwariant yn hysbys ym mis Hydref 2004, gweithredodd Estyn felly i reoli'r gwaith cynyddol hwn â gallu llai i recriwtio staff parhaol. Cafodd arolygwyr parhaol eu recriwtio

gennym lle gellid fforddio hyn, a phenodwyd gymaint â phosibl o arolygwyr ar secondiad. Fodd bynnag, gall y cyfnod arwain at recriwtio, gan gynnwys dod ag arolygwyr wedi'u secondio i mewn, fod yn unrhyw beth hyd at 9 mis. Y rheswm am hyn yw'r angen am archwiliadau cyn penodi sy'n cynnwys cliriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol, ac oherwydd y cyfnodau rhybudd hir y gall darparwyr addysg a hyfforddiant eu pennu ar gyfer rhyddhau staff yn barhaol neu dros dro.

Yn yr amgylchiadau hyn roedd tanwariant yn erbyn cyflogau yn anochel, ond cymerwyd camau priodol fel a ddisgrifiwyd eisoes.

- Tanwariant o £700,000 mewn rhaglenni. Mae'r prif feysydd tanwariant rhaglenni yn erbyn y gyllideb wreiddiol mewn gwaith arolygu Ôl-16, ac yn arbennig cost Arolygu Addysg Bellach. Fel a nodwyd yng nghyfrifon adnoddau 2003-2004, y prif reswm am y tanwariant hwn yw pan gafodd y gyllideb ar gyfer aseswyr cymheiriaid mewn arolygiadau Addysg Bellach ei phennu yn wreiddiol, roedd disgwyliad y byddai ffioedd arolygu yn daladwy gan Estyn yn ychwanegol at gostau teithio a chynhaliaeth, ond nid felly y bu hi dros y ddwy flynedd diwethaf. Hefyd, fel a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, mae cost cyhoeddiadau gryn dipyn yn is nag amcangyfrifon gwreiddiol o ganlyniad i lefelau is o ddogfennau printiedig copi caled a mwy o ddefnydd o gyhoeddiadau ar y wefan yn unig. Mae'r gyllideb rhaglenni ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf wedi'i hadolygu i ystyried newidiadau mewn patrymau gwariant a newid i arferion gweithredu.

- Roedd tanwariant o £725,000 yn yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer Costau Gweinyddol Cyffredinol; fodd bynnag, trosglwyddwyd rhyw ddwy ran o dair o'r swm hwn i AHA. Fel ag yn y flwyddyn ariannol flaenorol, y prif gyfrannwr oedd tanwariant mewn cyllideb o £250,000 ar gost Costau Teithio a Chynhaliaeth gan staff. Roedd y gyllideb wreiddiol wedi'i seilio ar nifer lawn o staff ond bydd amcangyfrifon yn y dyfodol yn cael eu hunioni â'r disgwyliad ar gyfer staff parhaol a staff ar secondiad, a bydd yn adlewyrchu hefyd y newidiadau mewn gweithredu yn sgil cynllunio gwaith yn well, sydd wedi arwain at arbedion mwy. Arweiniodd costau hyfforddi, sydd wedi'u cadw i lawr yn erbyn y gyllideb drwy wneud y defnydd mwyaf posibl o'n hadeiladau ar gyfer cyrsiau a digwyddiadau yn lle defnyddio gwestai a chanolfannau cynadledda, ynghyd â chostau recriwtio, a gafodd eu lleihau yn unol â chyfyngiadau ar gyllideb staff a nodwyd uchod, at leihad yn erbyn gwariant disgwyliedig o ryw £200,000. Cyfrannodd tanwario pellach ar waith technoleg gwybodaeth o ganlyniad i adnoddau staffio annigonol, ynghyd ag arbedion a gafwyd mewn meysydd fel costau contractau telathrebu, at gyfanswm y tanwariant mewn Costau Gweinyddol Cyffredinol. Mae'r tanwariant a ddangosir yn erbyn y Costau Gweinyddol yn Atodlen 1 yn cynnwys hefyd swm o £217,000 mewn perthynas â chostau ariannol heb fod yn arian parod o ganlyniad i gost credydau cyfalaf a chostau dibrisiant is na'r gyllideb.

Mae'r cyfrifon adnoddau hyn yn dangos bod tanwariant terfynol o £656,000 yn erbyn yr amcangyfrif refeniw, yn dilyn y trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn, a thanwariant o £195,000 yn erbyn y gyllideb cyfalaf.

Roedd y tanwariant refeniw pellach yn ganlyniad i'r ffaith na ellid dechrau recriwtio yn ystod y flwyddyn hyd nes i ganlyniad yr Adolygiad Gwariant ddod yn hysbys ym mis Hydref 2004. Arweiniodd yr oedi hwn at fethu llenwi swyddi am y flwyddyn ariannol gyfan. Hefyd, pan recriwtiwyd staff gennym, nid oeddwn yn gallu dod o hyd i recriwtiaid â chymwysterau a phrofiad addas i lenwi'r holl swyddi cynlluniedig.

Roedd tanwariant o £195,000 yn y gyllideb cyfalaf. Darparodd y gyllideb ar gyfer adnewyddiad llwyr o TG a chaledwedd telathrebu; fodd bynnag, cafwyd tanwariant o ganlyniad i'r elfen telathrebu yn rhedeg drosodd i 2005-2006 a'r caffaeliad adnewyddu TG yn cael ei gwblhau ar gostau gryn dipyn yn is na'r disgwyl. Roedd gwariant cyfalaf yn cynnwys prosiect mawr i ddarparu system cronfa ddata arolygu newydd, sef Athene. Dechreuodd y gwaith datblygu ar system Athene ym mis Hydref 2004, ac mae i'w gwblhau ym mis Medi 2005. Dangosir y gwariant ar system Athene yn y nodyn asedau sefydlog i'r cyfrifon dan 'Asedau wrthi'n Cael eu Hadeiladu'.

Dengys y fantolen ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2005, rwymedigaethau net o £1,411,000 (2003-04: £1,505,000). Nid yw'n anarferol i fantolen Estyn ddangos diffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol yn sgil nifer fawr o gredydwyr. Mae rhan fwyaf y credydwyr hyn yn ganlyniad arferol i drefniadau contractiol ar gyfer arolygiadau ysgolion, gan na thelir am gontract nes bod Estyn wedi cael adroddiad yr arolygiad. Dan ofynion statudol, gellir derbyn yr adroddiad hyd at 45 diwrnod ar ôl cwblhau'r arolygiad. Mae'r cynnydd yn lefel y 'Credydwyr eraill' o'r flwyddyn flaenorol yn ganlyniad yn bennaf i anfonebau a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mewn perthynas â'r prosiect adnewyddu caledwedd TG a'r gwaith ar ddatblygu cronfa ddata Athene a gwblhawyd at ddiwedd mis Mawrth 2005. Fel ag yn 2003-2004, dan y trefniant darparwr gwasanaeth cyflogres a threfniadau talu, mae ffigur y credydwyr hefyd yn cynnwys croniad yn y cyfrifon ar gyfer cyflogau mis Mawrth.

Yn unol â hynny, ystyriwyd ei bod yn briodol i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn. Bydd Estyn yn cael cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fodloni'r holl rwymedigaethau uchod pan fyddant yn ddyledus yn y flwyddyn ariannol 2005-2006.

## Adolygiad o'r gweithgareddau

Adroddir ar ganfyddiadau arolygu Estyn bob blwyddyn yn 'Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru'. Cyflwynwyd y ddogfen ddiweddaraf gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2005. Gellir cael yr adroddiad gan Y Llyfrfa ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

Yn 2004, parhawyd i hyfforddi arolygwyr ac eraill, gan gynnwys enwebeion ac aseswyr cymheiriaid, er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r trefniadau arolygu newydd. Ym mis Medi 2004, cyflwynwyd y Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd. Mae'r fframwaith hwn yn darparu ar gyfer ymgymryd ag arolygiadau yn ôl lefel risg y darparwr, gan hynny'n lleihau gofynion cyffredinol arolygu tra'n canolbwyntio'r ymdrech yn y meysydd hynny lle byddai sylw'n esgor ar y budd mwyaf. Bydd y fframwaith hwn yn parhau i gael ei gyflwyno ar draws meysydd arolygu a nodir, gan arwain at ei gyflwyno'n llwyr yn 2006.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad mawr gennym o bolisïau Adnoddau Dynol a pholisïau eraill, gan gynnwys Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Estyn. Adolygwyd gweithdrefnau adborth a chwynion Estyn gan ymgynghorydd allanol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys astudiaeth feincnodi gyda sefydliadau eraill a thrwy ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid. Rhoddwyd y weithdrefn newydd adborth a chwynion ar waith o 1 Ebrill 2005.

Darparwyd hyfforddiant sefydliad cyfan ar gynaliadwyedd, ymwybyddiaeth o amrywiaeth a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ynghyd â chymorth parhaus i unigolion mewn hyfforddiant yn y Gymraeg, medrau TGCh a hyfforddiant datblygiad personol. Drwy ymrwymiad parhaus i gynllunio a gweithredu i gefnogi datblygiad staff, ynghyd â gwaith y gweithgor Buddsoddwyr mewn Pobl, sicrhawyd bod Estyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer yr adolygiad o'n hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. O ganlyniad, llwyddodd Estyn i gael ei ail-achredu yn erbyn y safon newydd, llymach ym mis Ebrill 2005.

Yn ystod 2004-2005, mae Estyn wedi parhau i recriwtio i swyddi ledled y sefydliad. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd dan 'Canlyniadau am y Flwyddyn' ni fu modd recriwtio i'r holl swyddi gwag. Mae Estyn wedi llwyddo i ateb gofynion gwaith penodol drwy ddefnyddio unigolion wedi'u secondio o sefydliadau yr ydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu harolygu. Mae'r cyfleoedd secondio hyn wedi galluogi unigolion i ddatblygu'u hamrywiaeth medrau a gwybodaeth, ac wedi darparu staff dros dro i Estyn o ystod amrywiol o gefndiroedd. Mae rhai ohonynt wedi mynd ymlaen i geisio am swyddi parhaol gyda'r sefydliad.

Mae Estyn yn parhau i sicrhau bod ei gyfleusterau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cadw'n gyson â datblygiadau cyfredol. Gwnaethpwyd paratoadau felly yn ystod 2004-2005 ar gyfer adnewyddu'r caledwedd a'r rhwydwaith mewnol TGCh, ac ar gyfer systemau ffôn a systemau cyfathrebu drwy fideo newydd, i'w cyflwyno yn ystod 2005-2006. Dechreuwyd gweithio ar y system Athene hefyd, fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

Mae gwaith wedi parhau hefyd ar lywodraethu corfforaethol a rheoli risg a chryfhawyd pwyllgor Archwilio Estyn, o gychwyn y flwyddyn ariannol, fel ei fod yn cynnwys mwyafrif o aelodau allanol a chadeirydd annibynnol. Hefyd, mae Bwrdd Estyn wedi'i sefydlu yn cynnwys uwch aelodau staff a chyfarwyddwyr anweithredol. Mae cyfrifoldebau'r bwrdd yn cynnwys sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n briodol ac yn effeithiol.

## Targedau gweithredol

Gosododd Estyn nifer o dargedau penodol i'w cyflawni yn y flwyddyn ariannol, rhai ohonynt y dylanwadwyd arnynt gan gylch gorchwyl gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru. Bydd Adroddiad blynyddol gan y Bwrdd yn cael ei gyhoeddi, o 2005 ymlaen, yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

## Datblygiadau yn y dyfodol

Bydd recriwtio staff, a secondiadau pellach, yn digwydd yn 2005-2006 i gefnogi cyflwyno cylch arolygu ar gyfer ysgolion annibynnol (gan gynnwys ysgolion annibynnol arbennig), y gweithgaredd arolygu cynyddol ar gyfer anghenion arbennig a gwaith sy'n ehangu yn y sector ôl-16.

Bydd rhaglen gwella busnes Estyn ar gyfer 2005-2006 a thu hwnt yn cynnwys:

- cydymffurfiaeth barhaus â deddfwriaeth cyflogaeth a deddfwriaeth arall sy'n datblygu;
- adolygu system rheoli perfformiad Estyn;
- datblygu ein polisïau iechyd a diogelwch ymhellach;
- parhau i ymgorffori rheoli risg ar lefelau strategol, gweithredol a thîm;
- adolygu'r strategaeth TGCh;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer AALlau; a
- chynnal adolygiad ar ôl gweithredu'r trefniadau arolygu newydd.

Gellir gweld manylion am gynlluniau Estyn ar gyfer y dyfodol yng Nghynllun Corfforaethol Estyn ar gyfer 2005-2008, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

## Bwrdd Estyn

Yn 2004-2005 sefydlodd Estyn Fwrdd yn cynnwys uwch aelodau staff a chyfarwyddwyr anweithredol.

### Cyfarwyddwyr anweithredol

| | |
|---|---|
| Mrs S Davies | Ymgynghorydd addysg a chyn Bennaeth Ysgol Ogwr |
| Yr Athro S Prosser | Athro Arweinyddiaeth a Threfniadaeth,<br>Ysgol Fusnes, Prifysgol Morgannwg |
| Mrs P Ryan | Cyn Bennaeth Coleg Gorseinon |

### Uwch swyddogion

Uwch swyddogion y Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Miss S Lewis | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo |

| | |
|---|---|
| Miss H J Anthony | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion a gwaith AALlau |
| Mrs S Howells | Pennaeth Adran: Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mrs E R Kidd | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 |

**Penodiadau uwch swyddogion**

Penodwyd pob uwch aelod o'r Bwrdd yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Ysgolion yng Nghymru ar 1 Mehefin 2002 am gyfnod pellach o bum mlynedd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor dan adran 4 Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996. Nodir y rheolau penodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

**Cyflog aelodau'r Bwrdd Rheoli**

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 1 Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996. Mae'r Atodlen yn mynnu y ceir cymeradwyaeth gan Weinidog y Gwasanaeth Sifil.

Ar gyfer uwch aelodau eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflog Estyn, a gadeiriwyd gan y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gydag aelod annibynnol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Ni thelir cyflog i gyfarwyddwyr anweithredol ond mae hawl ganddynt i hawlio honorariwm o £250 am bob cyfarfod Bwrdd, ynghyd â chostau teithio a chynhaliaeth.

Nodir manylion pellach am gyflogau yn Nodyn 2 y cyfrifon hyn.

**Cynllun pensiwn**

Gofelir am gynweithwyr a gweithwyr presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n anghyfrannol ac nad ariennir (gweler Nodyn 1.9 y cyfrifon hyn) a cheir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS yn ei gyfanrwydd.

**Cyfle cyfartal**

Polisi Estyn yw y dylai pob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal ar gyfer cyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr gael triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tuedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrfifoldebau teulu/domestig neu batrymau gwaith e.e. rhan-amser, ac ni ddylai unrhyw unigolion wynebu anfantais yn sgil amodau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau.

Mae Estyn yn dilyn Cod Ymarfer y Gwasanaeth Sifil ar gyfer cyflogi pobl anabl, sy'n ceisio sicrhau na ddigwydd unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd, a bod cyflogaeth a dyrchafiad mewn gyrfa yn Estyn yn llwyr ar sail gallu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y gwaith.

## Lledaenu gwybodaeth

Mae Estyn yn sefydliad rhagweithiol sy'n annog rhannu gwybodaeth a syniadau, ac yn ceisio manteisio'n llawn ar dechnoleg fodern i gyflawni'r nodau hyn. Mae gan Estyn wefan cwbl weithredol sydd ag ystod o gyhoeddiadau sy'n cynnwys cyngor ac arfer dda. Mae cyhoeddiadau ar y safle hwn yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau ym maes addysg a hyfforddiant, a safle Mewnrwyd sydd ar gael i'r holl staff. Sefydlwyd grwpiau rheoli strwythuredig ar lefel strategol a lefel weithredol. Cynhelir cyfarfodydd corfforaethol a chyfarfodydd grŵp yn rheolaidd, a chaiff y wybodaeth a geir o ganlyniad ei lledaenu ledled y sefydliad drwy'r sianelau priodol. Mae Estyn yn gweithredu drwy nifer o brotocolau rhannu data â chyrff cyhoeddus tebyg sy'n gysylltiedig â'r maes addysg a hyfforddiant. I gefnogi gwaith partneriaeth barhaus mae Estyn wedi cytuno Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofsted, Safonau Gofal Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Polisi talu

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnig ystod o wasanaethau ariannol i Estyn, gan gynnwys prosesu taliadau cyflenwyr. Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae gofyn i'r Cynulliad dalu anfonebau cyflenwyr diamheuol o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag a ddaw yr hwyraf. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 94.2% o bob taliad o'r fath a wnaed yn 2004–2005 (2003-2004: 98.4%), gyda'r perfformiad is yn y flwyddyn hon yn ganlyniad i raddau helaeth i symiau cynyddol o daliadau i'w gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae talu anfonebau yn golygu proses ddwy ran sy'n gofyn am brosesu cychwynnol gan Estyn ac yna prosesu taliadau dilynol gan CCC. Yn 2005-2006, bydd Estyn yn ceisio sefydlu ac adrodd ar feini prawf perfformiad ar gyfer y ddwy elfen ar wahân o'r prosesu.

## Archwilwyr

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio cyfrifon Estyn yn unol ag Atodlen 6 (6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**

***29 Medi 2005***

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO

Dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, gan roi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn, a'r defnydd a wnaeth Estyn o adnoddau yn ystod y flwyddyn.

Caiff y cyfrifon adnoddau eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn, alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifo Estyn, gyda chyfrifoldeb dros baratoi cyfrifon Estyn a'u trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Swyddog Cyfrifo yn cydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn benodol:

- glynu wrth y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- ffurfio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, fel a nodwyd yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a

- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn y ddogfen Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

### 1. Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifo, mae gennyf i gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reoli mewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion Estyn, tra'n diogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf i'n gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi gan Cyfrifon y Llywodraeth.

Mae Estyn yn adran lywodraethol heb weinidog sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

### 2. Diben y system rheolaeth fewnol

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg at lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ond gynnig sicrwydd rhesymol o ran effeithiolrwydd ac nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r bwriad o nodi a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, arfarnu'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Sefydlwyd y system hon o reolaeth fewnol gan Estyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys.

### 3. Y gallu i ddelio â risg

Rhoddir arweinyddiaeth i reoli'r broses rheoli risg drwy bolisi rheoli risg Estyn, sy'n nodi:

diben trefniadau rheoli risg Estyn:
egwyddorion rheoli risg;
cyfrifoldebau perthynol yn Estyn;
goddefiant risg;
fframwaith rheoli risg Estyn a sut y bydd yn gweithio; a
sut mae rheoli risg yn cyfrannu at roi sicrwydd.

Dan y polisi, mae arweinwyr tîm ar lefel Pennaeth Cangen ac yn uwch yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn eu timau yn deall eu cyfrifoldebau rheoli risg ac am egluro faint o rym a roddir i staff i gymryd risg yn unol â'r polisi risg ac arweiniad arall. Cyflwynir y staff i system risg Estyn fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn y sefydliad, ac i reoli risg mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u swydd a'u cyfrifoldebau. Mae angen proffiliau rheoli risg mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer pob prosiect neu ddarn o waith sylweddol.

Caiff y polisi uchod ei gefnogi hefyd gan y pecyn sicrhau rheolaeth, a gyflwynwyd ar ddiwedd 2002-2003 i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli risg ar lefel tîm yn y sefydliad.

## 4. Y fframwaith rheoli risg

Caiff datganiadau ar reolaeth fewnol eu cynhyrchu gan staff Estyn ar lefel cangen a thîm AEM rheoli i gefnogi'r datganiadau rheoli adrannol.

Caiff cofrestr risg Estyn ei diweddaru bob chwarter a'i hadolygu'n flynyddol ar lefel tîm uwch reoli a thîm rheoli corfforaethol. Mae hyn yn sicrhau y caiff risgiau corfforaethol a gweithredol eu nodi, eu hasesu'n wrthrychol a'u rheoli'n weithgar. Fel y soniwyd amdano'n fras uchod, mae polisi rheoli risg Estyn yn nodi ei ymagwedd at oddefiant risg drwy ddiffinio'r hyn sy'n risgiau derbyniol a'r hyn sy'n feysydd risg a waherddir.

Ymgorfforir rheoli risg yng ngweithgaredd y sefydliad drwy'r gofyniad i'r holl waith sylweddol gael ei asesu'n briodol ar gyfer risg, a'i reoli yn unol â'r asesiadau hynny, gan bawb sy'n gysylltiedig. Yn nodedig, o fis Medi 2004, mae'r holl waith arolygu bron wedi cael ei wneud ar sail asesu risg, fel a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y Rhagair. Trefnwyd bod y meysydd arolygu nas ymymgerir â nhw ar sail asesu risg ar hyn o bryd i gyd-daro dros y ddwy flynedd nesaf. Dechreuwyd paratoi ar gyfer hyn mewn perthynas ag arolygiadau AALI yn 2004-2005.

Cynhelir ymwybyddiaeth o risg, gan gynnwys nodi cynnar a rheoli gweithgar, ar bob lefel yn y sefydliad drwy adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd fel y crybwyllir uchod, a thrwy'r gofyniad i reolwyr gwblhau datganiadau sicrwydd rheoli blynyddol yn seiliedig ar eu gwaith o reoli risgiau tîm. Yn ogystal, mae gan rai aelodau o staff gyfrifoldeb penodol dros ddatblygiad parhaus rheoli risg yn Estyn yn eu swydd ddisgrifiadau.

Ar ben hyn, pan gaiff systemau neu weithdrefnau eu creu o'r newydd neu eu hadolygu, rhoddir risg wrth graidd ystyriaethau Estyn ac rydym yn annog y rheiny yr ydym yn gweithio â hwy i ddefnyddio ymagwedd ar sail risg hefyd ac ymuno â ni i asesu a rheoli risg. Er enghraifft, rhoddir contractau i gontractwyr arolygiadau ysgolion ar sail sy'n cynnwys y ffordd y maent yn nodi ac yn rheoli risgiau. Yn yr un modd, mae gan Estyn bedwar fforwm arolygu sy'n cwmpasu agweddau gwahanol ar ein busnes craidd ac sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, i gynnig safbwynt allanol ar ein gwaith a'n datblygiad, er mwyn lleihau'r risg o beidio â chael her allanol i'r hyn a wnawn fel sefydliad.

Mae Pwyllgor Archwilio Estyn hefyd yn cynnig her allanol drwy ei aelodau annibynnol a'i gadeirydd annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifo yn ei chyfrifoldeb dros faterion risg, rheoli, llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig yn Estyn. Cafodd y rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor Archwilio hyfforddiant yn 2003-2004 i baratoi ar gyfer ailstrwythuro'r Pwyllgor ar ddechrau 2004-2005 yn unol â "Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio" a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn ystod y flwyddyn. Mae'r strwythur newydd yn caniatáu mwy o allanoldeb o 2004-2005 ymlaen, i gefnogi trefniadau rheolaeth gorfforaethol Estyn. Mae her allanol bellach yn cael ei chynnig gan Fwrdd Estyn, a sefydlwyd yn 2004-2005 ac sy'n cynnwys uwch aelodau staff a chyfarwyddwyr anweithredol. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n briodol ac yn effeithiol.

## 5. Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf i gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system ar gyfer rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn Estyn sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr

archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Bwyllgor Archwilio Estyn.

Mae adran Gwasanaethau Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i Estyn dan delerau cytundeb lefel gwasanaeth. Mae’r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn gweithredu yn ôl Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Yn ystod 2004-2005, cynhaliodd yr Adran Gwasanaethau Archwilio Mewnol archwiliadau yn unol â’i strategaeth archwilio dair blynedd a’i chynllun blynyddol.

Mae’r archwiliadau hyn, gan gynnwys archwiliad blynyddol o reolaeth risg yn Estyn, ynghyd â chanlyniadau asesiadau strategol a chorfforaethol Estyn ei hun, yn parhau i lywio datblygiad strategaeth archwilio fewnol dreigl tair blynedd yn cwmpasu’r cyfnod hyd at 2007 yn y fersiwn ddiweddaraf.

Mae gwaith a gwblheir gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn arwain at adroddiadau i mi sy’n cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Rhennir yr adroddiadau hyn gyda Phwyllgor Archwilio Estyn. Eir i’r afael â gwendidau a nodwyd drwy adroddiadau archwilio mewnol ac allanol i sicrhau bod gwelliant parhaus yn digwydd. Mae’r Pwyllgor Archwilio yn monitro cwblhau a chydymffurfiaeth ag argymhellion archwilio.

Mae Adran Atebolrwydd Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymgymryd ag ystod o wasanaethau ar ran Estyn ac felly mae’n rhan o fframwaith rheolaeth fewnol Estyn. Mae’r Datganiad Rheolaeth Fewnol a luniwyd gan Bennaeth yr Adran Atebolrwydd Ariannol i gefnogi’r Datganiad Rheolaeth Fewnol a lofnodwyd gan Jon Shortridge fel Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi sicrwydd pellach am effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol.

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a’r Swyddog Cyfrifo**

**29 Medi 2005**

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 15 i 33 dan baragraff 6 o Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i newidiwyd drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog, a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 21 a 22.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 9, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Atodlen 6 (5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn ôl y gofynion hynny ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol hefyd am baratoi'r Rhagair. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, yn cael eu pennu drwy statud, ac rwy'n dal sylw ar y safonau a'r arweiniad a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Rwyf yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn ôl y gofynion hynny ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Estyn wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf i wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 10 i 12 yn dangos bod Estyn wedi cydymffurfio â chanllaw'r Trysorlys ar y Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Rwyf yn adrodd os nad yw'n bodloni gofynion y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid oes gofyn i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheoliad. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheolaeth gorfforaethol Estyn neu ei weithdrefnau risg a rheoliadau.

### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Estyn wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Estyn, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawni fy archwiliad er mwyn i mi allu cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed trwy gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu

rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi arfarnu a yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol yn ddigonol at ei gilydd.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2005 a gwerth net alldro'r adnoddau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd at amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau a wneir yn ôl y gofynion hynny gan y Trysorlys; ac

- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**30 Medi 2005**

**Swyddfa Archwilio Cymru,**
**2 – 4 Park Grove,**
**CAERDYDD CF10 3PA**

## Atodlen 1
## Datganiad o Alldro'r Adnoddau
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005*

Atodlen 1

| | Amcan | | | Alldro 2004-05 | | | | 2003-04 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant gros | Incwm | CYFANSWM NET | Gwariant gros | Incwm | CYFANSWM NET | Cyfanswm net alldro o gymharu â'r Amcan arbediad/ (dros ben) | Alldro'r flwyddyn flaenorol |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau Gweinyddol | 7,443 | - | 7,443 | 7,278 | - | 7,278 | 165 | 6,299 |
| Costau Rhaglenni | 4,543 | - | 4,543 | 4,055 | (3) | 4,052 | 491 | 3,508 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **11,986** | **-** | **11,986** | **11,333** | **(3)** | **11,330** | **656** | **9,807** |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | | **12,646** | | | **11,415** | **1,231** | **9,111** |

| **Cysoni adnoddau yn erbyn gofynion arian parod net** | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm net alldro'r adnoddau** | | 11,986 | 11,330 | 656 | 9,807 |
| Caffaeliadau asedau sefydlog | 7 | 1,044 | 849 | 195 | 66 |
| Addasiadau croniadau: | | | | | |
| Eitemau heblaw am arian parod | 3&4 | (384) | (167) | (217) | (116) |
| Newidiadau yn y cyfalaf gweithio heblaw am arian parod | 8 | - | (663) | 663 | (734) |
| Defnyddio'r ddarpariaeth | 12 | - | 66 | (66) | 88 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **12,646** | **11,415** | **1,231** | **9,111** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 33 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 2
## Datganiad o'r Costau Gweithredu
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005*

| | Nodyn | **2004-2005** | | 2003-2004 |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 |
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 2 | | **5,416** | 4,578 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | | **1,862** | 1,721 |
| **Costau gweinyddol gros** | | | **7,278** | 6,299 |
| Incwm gweithredol | | | **-** | - |
| **Costau gweinyddol net** | | | **7,278** | 6,299 |
| **Costau rhaglenni** | | | | |
| Gwariant | 4 | **4,055** | | 3,516 |
| Llai: incwm | 5 | **(3)** | | (8) |
| **Costau rhaglenni net** | | | **4,052** | 3,508 |
| **Cost gweithredu net** | 6 | | **11,330** | 9,807 |
| **Alldro adnoddau net** | 6 | | **11,330** | 9,807 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau.

Mae'r holl enillion neu golledion cydnabyddedig yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o'r Costau Gweithredu.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 33 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 3
## Mantolen
*ar 31 Mawrth 2005*

| | Nodyn | **31 Mawrth 2005** | | 31 Mawrth 2004 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 7 | | **802** | | 186 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | **173** | | 168 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 10 | **71** | | 9 | |
| | | **244** | | 177 | |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 11 | **(2,418)** | | (1,750) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | | **(2,174)** | | (1,573) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(1,372)** | | (1,387) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 12 | | **(39)** | | (118) |
| **RHWYMEDIGAETHAU NET** | | | **(1,411)** | | (1,505) |
| **Ecwiti'r trethdalwr** | | | | | |
| Y gronfa gyffredinol | 13 | | **(1,411)** | | (1,505) |
| | | | **(1,411)** | | (1,505) |

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo**
**29 Medi 2005**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 33 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Atodlen 4
## Datganiad Llif Arian
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005*

| | *Nodyn* | **2004-2005** **£000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|---|
| Llif net arian parod allan o weithgareddau gweithredu | | **(10,566)** | (9,045) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddi ariannol | | **(849)** | (66) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | **11,477** | 9,051 |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) mewn arian parod** | 10 | **62** | (60) |

### Cysoni cost gweithredu â'r llif arian o weithgareddau gweithredu

| | *Nodyn* | **2004-2005** **£000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost net gweithgareddau gweithredu am y flwyddyn** | | **11,330** | 9,807 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heblaw arian parod | | | |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | **(207)** | (151) |
| Costau rhaglenni | 4 | **40** | 35 |
| Addasiadau ar gyfer symud cyfalaf gweithio heblaw am arian parod | 8 | **(663)** | (734) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 12 | **66** | 88 |
| **Llif net arian parod allan o weithgareddau gweithredu** | | **10,566** | 9,045 |

### Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddi ariannol

| | **2004-2005** **£000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol | **849** | 66 |
| Arian a gafwyd o werthu asedau sefydlog | **-** | - |
| **Llif net arian parod o weithgareddau buddsoddi** | **849** | 66 |

## Dadansoddiad o gyllid a chysoni â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2004-2005<br>£000 | 2003-2004<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 13 | **11,477** | 9,051 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn arian parod | 10 | **(62)** | 60 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **11,415** | 9,111 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 33 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 5
## Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion yr Adran
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005*

**Nod:** Codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a rhoi cyngor annibynnol.

| | **2004-2005** | | | 2003-2004 |
|---|---|---|---|---|
| | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | **Net £000** |
| **Amcanion** | | | | |
| **2004-2005** | | | | |
| 1. Arolygu darparwyr unigol addysg a hyfforddiant, a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru, at safon uchel. | 10,120 | (3) | 10,117 | 8,718 |
| 2. Rhoi cyngor annibynnol a chadarn, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gynorthwyo wrth ffurfio ac arfarnu polisi addysg a hyfforddiant. | 1,213 | 0 | 1,213 | 1,089 |
| **Costau gweithredu net** | **11,333** | **(3)** | **11,330** | **9,807** |

.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 33 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

### 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r *Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Disgrifir isod y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Estyn. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

1.1 *Arferion cyfrifo*

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a'u haddasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i Estyn.

1.2 *Asedau sefydlog diriaethol*

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes defnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod gwerth yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur, a chost gyfredol asedau newydd yn eu lle llai dibrisiant.

Mae gwariant datblygu Prosiect newydd Athene wedi'i droi'n gyfalaf ar gost. Gan fod y prosiect yn un parhaus, mae hwn wedi'i gynnwys mewn asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eleni.

1.3 *Dibrisiant*

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog diriaethol trwy randaliadau cyfartal dros yr oes ddefnyddiol yr amcangyfrifir sydd ganddynt. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Cyfarpar TG 3-5 mlynedd
- Celfi a Ffitiadau 5 mlynedd
- Offer Swyddfa 5 mlynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o'r Costau Gweithredu yn y flwyddyn y digwyddodd.

1.4 *Incwm Gweithredol*

Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd yn bennaf (ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol) ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbyniadau sy'n caniatáu i Estyn gadw derbyniadau felly.

1.5 *Gwariant gweinyddol*

Dadansoddir y Datganiad o’r Costau Gweithredu rhwng costau gweinyddol a chostau rhaglenni. Mae costau gweinyddol yn dangos costau gweithredu Estyn fel y’u diffinnir dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm cysylltiedig.

1.6 *Gwariant rhaglenni*

Mae costau rhaglenni’n adlewyrchu taliadau heb fod yn daliadau treuliau gan Estyn. Taliadau i drydydd parti dan gontract ar gyfer gwaith arolygu yw’r rhain yn bennaf. Caiff unrhyw symiau sydd yn dal heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn am arolygiadau Tymor y Gwanwyn eu cynnwys dan credydwyr. Caiff unrhyw gontractau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer arolygiadau sydd i’w cynnal yn y tymhorau ysgol dilynol eu datgelu fel ymrwymiadau yn y nodiadau i’r cyfrifon.

1.7 *Tâl cyfalaf*

Mae credyd, sy’n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Estyn, wedi’i gynnwys yn y costau gweithredu a’r costau rhaglenni. Mae’r credyd wedi’i gyfrifo yn ôl cyfradd safonol y llywodraeth o 3.5 y cant mewn termau real ar bob ased llai rhwymedigaethau, ac eithrio balansau arian parod a gedwir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM.

1.8 *Treth ar Werth*

Mae rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw’r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu’i gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu fod TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

1.9 *Pensiynau*

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe’u disgrifir yn Nodyn 2. Nid yw elfennau budd-daliadau’r cynlluniau a ddiffinnir yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â budd-daliadau dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau’r cynlluniau a ddiffinnir, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy’n daladwy am y flwyddyn.

1.10 *Costau ymadael yn gynnar*

Mae’n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol budd-daliadau sydd ar ben budd-daliadau arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy’n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo’r rhwymedigaeth yn codi.

1.11 *Prydlesi gweithredu*

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o’r Costau Gweithredu mewn symiau cyfartal dros gyfnod y prydles.

## 2. Nifer y staff a chostau eraill

a) Mae costau staff yn cynnwys:

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **3,936** | 3,552 |
| Costau ymddeol yn gynnar (wedi'u troi'n gyfalaf ar oed ymddeol arferol) | **120** | - |
| Costau nawdd cymdeithasol | **372** | 334 |
| Costau pensiwn arall | **626** | 565 |
| **Cyfanswm Costau Net** | **5,054** | 4,451 |
| Ynghyd â: | | |
| Secondiaid i Mewn | **125** | - |
| Staff Asiantaethau | **237** | 127 |
| **Cyfanswm** | **5,416** | 4,578 |

Mae'r PCSPS yn gynllun budd-dâl diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu, ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2003. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (http://www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2004-05, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £626,301 yn daladwy i'r PCSPS (2003-04 - £565,372) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun. Bydd y cyfraddau'n cael eu cynyddu o 2005-06 ymlaen. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n adlewyrchu buddion fel byddant yn cronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Nid oes gan Estyn unrhyw Gyfrifon pensiynau Partneriaeth.

b) Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2004-2005** | 2003-2004 |
|---|---|---|
| Amcan 1 | **90.04** | 80.9 |
| Amcan 2 | **15.89** | 14.3 |
| Cyfanswm Nifer | **105.93** | 95.2 |

Mae'r dosbarthiad o gyfanswm niferoedd y staff i amcanion wedi'i wneud gyda chyfeiriad at yr amser cymharol a dreuliwyd gan staff Estyn ar weithgareddau craidd.

c) Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gyflog a buddion pensiwn uwch reolwyr Estyn.

## Cyflog

| | 2004-05 | | 2003-04 | |
|---|---|---|---|---|
| | Band Cyflog £000 | Buddion mewn nwyddau (at y £100 agosaf) | Band Cyflog £000 | Buddion mewn nwyddau (at y £100 agosaf) |
| Susan Lewis – *Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* | 90-95 | - | 85-90 | - |

Yn unol â DAO12/00, nid yw gweddill aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi rhoi caniatâd i ddatgelu manylion eu cyflog a manylion buddion eu pensiwn. Mae eu cyflogau nhw ym Mand Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil (£54,788 i £115,616).

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y taliadau bonws neu dâl sy'n daladwy am berfformiad, hawl wedi'i chadw i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw staff a lwfansau eraill i'r graddau sy'n amodol ar drethi'r DU.

## Buddion Pensiynau

| | **Cynnydd go iawn mewn pensiwn yn 60 oed** **£000** | **Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2005 a chyfandaliad cysylltiedig** **£000** | **Gwerth Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian ar 31 Mawrth 2004** **£000 Agosaf** | **Gwerth Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian ar 31 Mawrth 2005** **£000 Agosaf** | **Cynnydd Gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian** **£000 Agosaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Susan Lewis – *Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 5.0-7.5 | 35-40 ynghyd â chyfandaliad o 105-110 | 629 | 718 | 57 |

Troednodyn:
Rhoddir diffiniad a manylion pellach am Werthoedd Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian ar dudalen 24.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddion statudol a ddiffinnir ar sail 'cyflog terfynol' (classic, premium a classic plus). Nid yw'r cynlluniau hyn wedi'u hariannu gyda chost buddion yn cael ei thalu gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan classic, premium a classic plus eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Gallai gweithwyr sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o premium neu ymuno â threfniant rhanddeiliaid 'pryniant arian' ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Gosodir cyfraniadau gweithwyr ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5% ar gyfer premium a classic plus. Mae buddion yn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn o dair blynedd yn daladwy ar adeg ymddeoliad. Mae buddion premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (trosglwyddo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Yn ei hanfod, mae classic plus yn amrywiad ar premium, ond mae buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un modd â classic.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliad. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil iechyd gwael).

Gellir gweld manylion pellach am drefniadau Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil (CETV) ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn-gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil eu haelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau CETV, ac o 2004-05 ymlaen, manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolion wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil ac y mae Pleidlais y Gwasanaeth Sifil wedi derbyn taliad trosglwyddo ar ei gyfer sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu cynnwys. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu blynyddoedd ychwanegol ganddynt o wasanaeth pensiwn yn y cynllun gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Cyfadran Actiwariaid.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n rhoi cyfrif am y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## 3. Costau gweinyddol eraill

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: | | |
| - llogi llungopiwyr | **9** | 5 |
| - adeiladau | **360** | 353 |
| Costau adeiladau eraill | **294** | 382 |
| TG a thelathrebu | **316** | 305 |
| Gwasanaethau canolog Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **67** | 66 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **257** | 238 |
| Cyflog yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | **20** | 20 |
| Gwariant arall | **332** | 201 |
| Eitemau heblaw am arian parod: | | |
| - dibrisiant | **233** | 155 |
| - cost credyd cyfalaf | **(13)** | (5) |
| - darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar | **(13)** | 1 |
| | **1,862** | 1,721 |

## 4. Costau net rhaglenni

| | **2004-2005** | **2003-2004** **Ailddatganwyd** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Gwariant cyfredol** | | |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | **240** | 237 |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | **3,612** | 3,082 |
| Arolygiadau meithrinfeydd a chostau cysylltiedig | **3** | 16 |
| Arolygiadau Hyfforddiant yn y Gwaith | **119** | 92 |
| Cyhoeddiadau cylch gwaith | **121** | 124 |
| | **4,095** | 3,551 |
| Eitemau heblaw am arian parod: | | |
| - cost credyd cyfalaf | **(40)** | (35) |
| | **4,055** | 3,516 |
| Llai: incwm rhaglenni (Nodyn 5) | **(3)** | (8) |
| | **4,052** | 3,508 |

## 5. Incwm rhaglenni

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm rhaglenni** | | |
| - ffioedd cofrestru | **3** | 8 |
| **Cyfanswm** | **3** | 8 |

Gan fod yr incwm a dderbynnir o ffïoedd cofrestru yn fach a'i fod yn gallu amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, nid yw'n cael ei gynnwys yn y ffigurau Amcan yn Atodlen 1.

## 6. Cysoni costau gweithredu net â chyfanswm rheoli a'r alldro adnoddau net

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Costau gweithredu net | **11,330** | 9,807 |
| **Alldro adnoddau net** | **11,330** | 9,807 |

Cyfanswm y gwariant a'r incwm a nodir yn y Datganiad o Gostau Rhedeg (Atodlen 2) yw'r costau gweithredu net. Cyfanswm yr elfennau hynny o'r gwariant a'r incwm sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Senedd yw'r alldro adnoddau net.

## 7. Asedau sefydlog

| | Ased wrthi'n cael ei Adeiladu £000 | Cyfarpar TG £000 | Celfi a Ffitiadau £000 | Offer Swyddfa £000 | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | - | 369 | 305 | 132 | 806 |
| Ychwanegiadau | 584 | 265 | - | - | 849 |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | **584** | **634** | **305** | **132** | **1,655** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | - | 310 | 205 | 105 | 620 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 148 | 60 | 25 | 233 |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | **-** | **458** | **265** | **130** | **853** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | **584** | **176** | **40** | **2** | **802** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2004 | **-** | **59** | **100** | **27** | **186** |

## 8. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw am arian parod

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn dyledwyr | **5** | 10 |
| (Cynnydd) mewn credydwyr | **(668)** | (744) |
| | **(663)** | (734) |

## 9. Dyledwyr

| | **31 Mawrth 2005 £000** | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | **11** | 11 |
| Trethi | **42** | 34 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **120** | 123 |
| | **173** | 168 |

## 10. Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | **31 Mawrth 2005 £000** | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **9** | 69 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | **62** | (60) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **71** | 9 |

Mae Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM (OPG) yn darparu gwasanaeth bancio cyfrif cyfredol. Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth:

| | **31 Mawrth 2005 £000** | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| Balansau yn yr OPG | **67** | 7 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | **4** | 2 |
| | **71** | 9 |

## 11. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2005 £000** | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | **1,113** | 1,154 |
| Credydwyr eraill | **837** | 169 |
| Cyllid y Gyflogres | **420** | 384 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **48** | 43 |
| | **2,418** | 1,750 |

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Costau ymadael yn gynnar:** Rhwymedigaethau uwchlaw budd-daliadau pensiwn arferol cyn-weithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar.

| | **£000** |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2004 | **118** |
| Gostyngiad yn y ddarpariaeth | **(13)** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **(66)** |
| | **39** |

## 13. Cysoni'r gost gweithredu net â newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| **Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2)** | **(11,330)** | (9,807) |
| Cyllid net oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | **11,477** | 9,051 |
| | **147** | (756) |
| Addasiadau cost tybiannol: | | |
| - cost credyd cyfalaf | **(53)** | (40) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net yn y Gronfa Gyffredinol** | **94** | (796) |
| Cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill | **(1,505)** | (709) |
| **Cronfa gyffredinol ar 31 Mawrth (Atodlen 3)** | **(1,411)** | (1,505) |

## 14. Ymrwymiadau dan brydlesi gweithredu

| | **2004-2005 £000** | | 2003-2004 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2005, roedd Estyn wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesi gweithredol yn dod i ben: | - | - | - | - |
| - cyn pen blwyddyn | - | - | - | - |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | - | 5 | - | 6 |
| - ar ôl pum mlynedd | 306 | - | 359 | - |
| | **306** | **5** | **359** | **6** |

## 15. Ymrwymiadau cyfalaf

Mae ymrwymiad Cyfalaf ar 31 Mawrth 2005 nad oes darpariaeth wedi'i wneud ar ei gyfer yn y cyfrifon hyn fel a ganlyn: Prosiect Athene: £797,046.

## 16. Ymrwymiadau eraill

Mae Estyn wedi cytuno ar gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredol) ar gyfer gwaith arolygu gwerth £788,629 ar 31 Mawrth 2005. (2003-2004: £1,031,690).

## 17. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2005.

## 18. Nodyn i Atodlen 5

Mae cost credyd cyfalaf Estyn wedi'i rhannu rhwng amcanion ar sail costau gros cysylltiedig.

Mae gwariant rhaglenni wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

| | **2004-2005 £000** | 2003-2004 £000 Ailddatganwyd |
|---|---|---|
| **2004-05** | | |
| **Costau Rhaglenni** | | |
| 1. Arolygu darparwyr unigol addysg a hyfforddiant, a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru, at safon uchel. | **3,934** | 3,392 |
| 2. Rhoi cyngor annibynnol a chadarn, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gynorthwyo wrth ffurfio ac arfarnu polisi addysg a hyfforddiant. | **121** | 124 |
| **Costau Rhaglenni** | **4,055** | 3,516 |

Mae costau gweinyddol wedi'u priodoli i amcanion yn unol â'r defnydd arfaethedig o adnoddau yn ystod y flwyddyn.  Mae incwm wedi'i ddyrannu i amcanion yn yr un cyfrannau â gwariant cysylltiedig.

## 19. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r sefydliadau Llywodraeth canlynol yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig:

Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol
Y Comisiwn Archwilio

Nid oes unrhyw un o'r staff rheoli allweddol na phartïon eraill cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 20. Balansau rhyng-llywodraeth

| | Dyledwyr: symiau'n ddyledus mewn blwyddyn | Credydwyr: symiau'n ddyledus mewn blwyddyn | Dyledwyr: symiau'n ddyledus mewn blwyddyn | Credydwyr: symiau'n ddyledus mewn blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2005 | Ar 31 Mawrth 2005 | Ar 31 Mawrth 2004 | Ar 31 Mawrth 2004 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balansau â chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 42 | 459 | 34 | 384 |
| Balansau gydag awdurdodau lleol | - | 42 | - | 15 |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 131 | 1,917 | 134 | 1,351 |
| **Cyfanswm** | **173** | **2,418** | **168** | **1,750** |

## 21. Offerynnau Ariannol

Mae'r Safon Adrodd Ariannol 13 (FRS 13), *Deilliadau ac Offerynnau Ariannol Eraill,* yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau i endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol ei weithgareddau a'r ffordd y caiff adrannau'r llywodraeth eu hariannu, nid yw Estyn wedi'i amlygu i'r graddau o risg ariannol a wynebir gan endidau busnes. Yn ogystal, mae gan offerynnau ariannol rôl llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg na'r hyn a fyddai'n arferol ar gyfer y cwmnïau cofrestredig y mae FRS 13 yn fwyaf perthnasol iddynt. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol Estyn eu creu gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac nid oes cyfrifoldeb arnynt i newid y risgiau a wynebir gan yr adran wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

### Risg Hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu yn y lle cyntaf ar nawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ei anghenion adnoddau, ac nid yw felly wedi'i amlygu i risgiau hylifedd sylweddol.

## Risg Cyfradd Llog ac Arian Tramor

Nid yw Estyn yn dal unrhyw adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu cyfenwi mewn sterling, felly nid yw wedi'i amlygu i unrhyw risg cyfradd llog na risg arian tramor.